

Bwriwch olwg fanylach ar... FFYNGAU

Mae ffyngau, ailgylchwyr natur, yn helpu i sicrhau y gall planhigion sy'n tyfu yn y pridd aildddefnyddio maetholion o blanhigion ac anifeiliaid marw.

Mae ffwng, sydd fel arfer wedi'i guddio yn y pridd neu mewn coed, yn cynnwys gwe o edeifion mân sy'n amsugno bwyd o'r amgylchoedd.

O'r edeifion hyn y mae'r ffrwythgyrff, megis madarch, yn ymddangos.

Mae ganddyn nhw amrywiaeth rhyfeddol o liwiau, siapiau a meintiau, ac mae pob un yn helpu i wasgaru miliynau o sborau. Coetiroedd a gweirgloddiau yw'r lleoedd gorau i weld ffyngau - beth am fynd ati i weld faint y gallwch eu darganfod?

- Mae ffyngau yn organebau rhyfeddol nad ydynt yn blanhigion nac yn anifeiliaid. Maen nhw yn eu teyrnas eu hunain.
- Mae'r sborau, sydd yn cyfateb i hadau planhigyn, mor fach fel y gallech roi rhwng 500 a 1000 ar ben pin!
- Mae rhai ffyngau yn byw yn bartneriaid gyda phlanhigion. Cymerant fwyd (siwgrau) o'r planhigion, ond rhoddant faetholion a dŵr yn ôl i'r planhigion.
- Mae burum yn ffwng ungerll, ac fe'i defnyddir i wneud i fara godi, ac i gynhyrchu alcohol trwy eplesiad mewn cwrw, gwin a seidr.
- Caiff penisilin, gwrthfotig (cyffur sy'n lladd bacteria), ei wneud o ffwng.

Ewch i Gymdeithas Fycolegol Prydain i ddysgu mwy am ffyngau a gwefan y Cyngor i gael gwybod mwy am fywyd gwyllt rhyfeddol Sir Gaerfyrddin.



Capiau cwrw



Boled brown y bedw



Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire Biodiversity Partnership

**Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales**

**Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council**